OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 717 (Cy.76)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cwm Taf (Sefydlu) 2008

Gwnaed - - - -	*11 Mawrth 2008*
Yn dod i rym - -	*12 Mawrth 2008*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 18(1) a (2) a pharagraffau 5 a 7 o Atodlen 3 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006(**1**) ac adran 25 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 (**2**), ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad a ragnodwyd o dan adran 18(3) o'r Ddeddf, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cwm Taf (Sefydlu) 2008 a daw i rym ar 12 Mawrth 2008.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall—

y mae i "dyddiad gweithredol" yr ystyr a roddir i "*operational date*" ym mharagraff 5(5) o Atodlen 3 i'r Ddeddf;

ystyr "dyddiad sefydlu" ("*establishment date*") yw 12 Mawrth 2008;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr "gwasanaethau iechyd cymunedol" ("*community health services*") yw unrhyw wasanaeth y dichon Gweinidogion Cymru ei ddarparu o dan adran 3(1) o'r Ddeddf neu Atodlen 1 iddi;

ystyr "yr ymddiriedolaeth" ("*the trust*") yw Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cwm Taf a sefydlir gan erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn.

Sefydlu'r ymddiriedolaeth

2. Sefydlir drwy hyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol o'r enw Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cwm Taf neu the Cwm Taf National Health Service Trust.

(**1**) 2006 p.42
(**2**) 1993 p.38, Trosglwyddwyd swyddogaethau unrhyw Weinidog y Goron i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 ac Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999. Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.